

GOGLEDD CYMRU AC EWROP

BUDDSODDI MEWN DYFODOL MWY DISGLAIR AR GYFER GOGLEDD CYMRU

RHIFYN 3: GWANWYN 2015

Cynhyrchwyd gan Dim Ewropeaidd Arbenigol Gogledd Cymru ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

ECONOMI CRYF

Adeiladu

economi

rhanbarthol

Gogledd Cymru



Darparu llwyfan ar gyfer buddsoddi
Adeiladu'r sylfeini i fusnesau a mentrau
fuddsoddi a thyfu

Paratoi i Lwyddo
Cynorthwyo pobl gogledd Cymru i chwarae
rhan lawn a gweithredol yn economi yfory



MAE **BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU** YN DWYN YNGHYD RHANDDEILIAID ALLWEDDOL Y RHANBARTH YN Y SECTORAU PREIFAT A CHYHOEDDUS I SBARDUNO TWF ECONOMAIDD AR DRAWS Y RHANBARTH.

Ymelwa ar gryfderau gogledd Cymru i roi hwb i ddatblygiad economaidd



Mae buddsoddiad Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn ystod y 6 blynedd diwethaf (dros £279m, gan gynnwys £154m o arian Cydgyfeiriant) wedi helpu i gryfhau economi gogledd Cymru. Buddsoddwyd dros £61m, gan gynnwys dros £45 miliwn o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, yn uniongyrchol mewn busnesau ac mewn darparu'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl i lwyddo.

Mae'r Cynghorydd Dilwyn Roberts, Cadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, yn dweud wrthym am rai o'r datblygiadau sy'n digwydd yn y rhanbarth, a sut mae buddsoddiad Cronfeydd yr UE yn cyfrannu at uchelgeisiau'r Bwrdd i adeiladu economi'r rhanbarth.

Mae gennym bob rheswm i edrych ymlaen â gwir obaith i'r rhagolygon ar gyfer economi gogledd Cymru dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Wrth fuddsoddi mwy mewn swyddi, gallwn edrych ymlaen at fwy o ffyniant fydd, yn ei dro, yn creu mwy o gyfleoedd busnes a swyddi yn y rhanbarth.

Gyda buddsoddiadau mawr fel Wylfa Newydd, carchar gwerth £250 miliwn yn Wrecsam, a datblygu parhaus yn Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy, bydd ystod o gyfleoedd i fusnesau a phobl gogledd Cymru fanteisio arnynt.

Darparu llwyfan ar gyfer buddsoddi

Mae buddsoddiad wedi dechrau dwyn ffrwyth yn nhair Ardal Fenter Gogledd Cymru ar Ynys Môn, yng Nglannau Dyfrdwy a Eryri; gan ddarparu catalydd ar gyfer datblygu ledled gogledd Cymru.

Mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru a chyllid gan yr UE a'r sector preifat, i ddarparu band eang cyflym iawn ledled gogledd Cymru eisoes yn darparu cyfle i fusnesau lleol gystadlu ar lwyfan fyd-eang.



Rhoi band eang cyflym iawn ar waith

Erbyn diwedd 2016, bydd y rhanbarth ymhlith y rhai â'r cysylltiadau digidol mwyaf yn y byd, a fydd yn cefnogi ein hymdrechion i ddenu buddsoddiad newydd a thyfu ein mentrau lleol.

Mae gennym bobl ifanc dalentog sy'n dangos gwir ddawn a gweledigaeth greadigol – rhinweddau dymunol

a fydd yn eu helpu i ddod o hyd i'r cyfleoedd entrepreneuriaidd y gall y rhanbarth eu cynnig.

Paratoi i lwyddo

Bydd dros 40,000 o swyddi newydd yn cael eu creu yng ngogledd Cymru yn ystod y degawd nesaf. Mae paratoi pobl ifanc y rhanbarth â'r sgiliau priodol i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a fydd yn cael eu creu mewn ystod amrywiol o sectorau – o ynni a gweithgynhyrchu uwch i'r diwydiannau creadigol, technoleg ddigidol a threftadaeth a thwristiaeth awyr agored – yn ganolog i weledigaeth y Bwrdd Uchelgais.

Bydd canolfan hyfforddi newydd gwerth £10 miliwn ar gyfer peirianeg yn cael ei hadeiladu ar Ynys Môn, fydd yn sicrhau bod gan bobl y sgiliau sydd eu hangen arnynt i ymgymryd â swyddi tra medrus yn Wylfa Newydd, a chyfleoedd gwaith eraill yn ymwneud â pheirianeg yn y rhanbarth.



Wylfa newydd

Mae gwella sgiliau a dyheadau unigolion llafurlu gogledd Cymru wrth wraidd gweledigaeth y Bwrdd Uchelgais i gynyddu gwerth y farchnad lafur i sbarduno cynhyrchiant, cynyddu enillion, swyddi a chreu economi fwy arloesol ac entrepreneuriaidd.

Mae darparu cymorth dwys i wella cyfleoedd pobl i ddod o hyd i waith, a gwella eu sgiliau trwy addysg a hyfforddiant, hefyd yn allweddol i gynyddu symudedd y farchnad lafur yn y rhanbarth.

Mae'n amlwg bod buddsoddiad Ewropeaidd wedi helpu gogledd Cymru i baratoi ac adeiladu ar gyfer dyfodol ffyniannus, ac â swyddi a chyfleoedd newydd ar y gorwel, gallwn edrych ymlaen â gobaith.



Gosodiad Minesto o arâe lanw 10mw yn Nyfnderoedd Caergybi yw un o'r datblygiadau sy'n cael eu cefnogi gan Raglen Ynni Ynnys Môn

DARPARU LLWYFAN AR GYFER BUDDSODDI

Mae buddsoddiad gan Gronfeydd Strwythurol yr UE wedi darparu'r sylfeini i fusnesau a mentrau yng ngogledd Cymru fuddsoddi a thyfu.

Mae cefnogaeth gan gynllun cymorth busnes y Gronfa Fuddsoddi Leol (LIF) wedi cynorthwyo twf mewn busnesau lleol ledled gogledd-orllewin Cymru, gan gynorthwyo 396 o fentrau a helpu i greu 596 o swyddi. Darparodd cronfa Cyfenter, sy'n werth £4 miliwn, fuddsoddiad ariannol i fentrau cymdeithasol newydd a datblygol i'w helpu i wireddu eu potensial fel busnesau cynaliadwy a hyfw yn economi gogledd Cymru.

Mae prosiect Parciau Busnes Strategol Gogledd-ddwyrain Cymru yn enghraifft arall o'r gwaith sydd ar y gweill i gryfhau economi'r rhanbarth – hyd yn hyn, mae'r prosiect wedi creu 283 o swyddi ac wedi denu £7.7 miliwn o fuddsoddiad gan y sector preifat.



Mae Taste Academy yn fwyty hyfforddi newydd a agorwyd gan Strategaeth Dinas y Rhyl, mewn partneriaeth â Choleg Rathbone

PARATOI I LWYDDO

Helpodd buddsoddiad gan y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (ESF) i gynyddu lefelau sgiliau dros 100,000 o bobl yng ngweithlu'r rhanbarth, sef sbardun allweddol o gynhyrchiant a thwf. Mae cymorth ESF wedi helpu bron i 6,000 o bobl sydd wedi'i chael hi'n anodd dod o hyd i swydd i fanteisio ar gyflogaeth gynaliadwy, ac mae dros 17,000 o bobl ifanc y rhanbarth wedi cael y sgiliau a'r cyfleoedd cywir i greu gweithlu bywiog ac ymatebol ar gyfer y dyfodol.

Gan fod Wylfa yn rhoi'r gorau i gynhyrchu trydan ar ddiwedd 2015 a'r cam cyntaf o ddadgomisiynu Trawsfynydd i fod i gael ei gwblhau yn 2016, crëwyd y prosiect Llunio'r Dyfodol i wella sgiliau a hyblygrwydd y 1,200 o weithwyr dan sylw.

Darparodd prosiectau fel rhaglen Marchnad Lafur Drosiannol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) a Thaith i Waith gymorth swydd i bobl gynyddu eu lefelau sgiliau, gan wella eu siawns o ddod o hyd i waith. Ysbrydolodd Technocamps bobl ifanc i gymryd diddordeb mewn technoleg a helpu i fodloni galw o fewn economi ddigidol y rhanbarth, sy'n tyfu'n gyflym, a helpodd Llwyddo'n Lleol i greu diwylliant o fenter ymhlith pobl ifanc, a'u cynorthwyo i chwarae rhan lawn a gweithredol yn economi yfory.



Cafodd Tywyn Bakery gymorth LIF, a helpodd i greu 6 swydd

CYMORTH LIF YN DWYN FFRWYTH

O bobi i fiotechnoleg, mae cymorth y Gronfa Fuddsoddi Leol wedi arwain at hwb mewn creu swyddi ledled gogledd Cymru.

I'r tîm gŵr a gwraig, lan a Joanna Oliver, caniatodd y gronfa iddynt brynu offer hanfodol a thalu costau cysylltiad trydan i sefydlu Tywyn Bakery, gan greu 2 swydd llawn amser a 4 swydd ran-amser.

Yn Sir Ddinbych, darparwyd cymorth grant i ADC Biotechnology i drosi uned fusnes wag yn labordy gweithiol ag amwynderau a systemau trin aer

priodol. Mae'r busnes wedi creu 6 swydd llawn amser.

Mae busnesau eraill a dderbyniodd gymorth yn cynnwys G ac EW Davies o Drofarth. Caniatodd y gronfa iddynt brynu offer ymdrin â galwadau ffôn i'w galluogi i gystadlu am gcontractau mwy.

Mae cymorth i brynu taclau ac cyfarpar newydd wedi helpu i roi hwb i fusnes DP Welding yn Amlwch – erbyn hyn, mae'r cwmni ar Ynys Môn yn cyflogi 5 gweithiwr ac un prentis



Mae ADC Biotechnology yn datblygu dulliau newydd i gyflymu a lleihau costau cyffuriau canser yn sylweddol





FFIT I'R GYMUNED

Sefydlwyd Canolfan Hamdden Biwmares fel menter gymdeithasol yn 2012, gyda'r nod o gynorthwyo i drosglwyddo canolfan hamdden a redwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn i fenter gymunedol newydd.

Diolch i gymorth gan gymorth Cronfa Cyfenter, diogelodd y prosiect ddyfodol 2 swydd llawn amser ac 1 swydd rhan amser yn y ganolfan hamdden, a chreu swydd ychwanegol.

Darparodd Cronfa Cyfenter fuddsoddiad ariannol o hyd at £75,000 i fentrau cymdeithasol newydd a datblygol i gyflwyno nwyddau neu wasanaethau newydd. Helpodd dros 50 o fentrau cymdeithasol ledled gogledd-orllewin Cymru.

www.canolfanbeaumaris.org.uk

CYFENTER
CALENIEB

MODEL O ARFER ORAU

Roedd prosiect Parciau Busnes Strategol Gogledd-ddwyrain Cymru yn cwmpasu Ystad Ddiwydiannol Wrecsam a Pharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy. Mae'r pwerdai economaidd hyn yng Nghymru yn gartref i dros 500 o fusnesau sy'n cyflogi 19,000 o bobl. Roedd y prosiect unigryw hwn, a ariannwyd gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, yn wahanol oherwydd y cafodd ei amlygu a'i sbarduno gan y busnesau yn y lleoliadau hyn.

Cyflwynodd y prosiect gydlynwyr Parc Busnes i gynllunio gweithgareddau a digwyddiadau sy'n cyfoethogi, datblygu a chefnogi ffyniant economaidd, ariannol ac amgylcheddol y parciau. Anogodd y prosiect fusnesau mawr a bach i ryngweithio â'i gilydd, gan greu amgylchedd lle y gellir rhannu'r arfer orau o fewn busnesau.

Roedd canlyniadau'r prosiect yn cynnwys creu 283 o swyddi a chael £7.7 miliwn o fuddsoddiad gan y sector preifat.





Croeso blaen tŷ gan Cynthia

GWEITHREDU CAMAU HYDERUS TUAG AT GYFLOGAETH GYNALIADWY

Bu Cynthia Hughes yn ddi-waith am ychydig fisoedd ac roedd yn cael trafferth mynd yn ôl i weithio. Diolch i raglen Marchnad Lafur Drosiannol (ILM) CGGC, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Chronfeydd Strwythurol Ewrop (Cronfa Gymdeithasol Ewropeaidd), erbyn hyn mae Cynthia wedi dod o hyd i waith.

Cwblhaodd Cynthia y rhaglen ILM a chafodd swydd blaen tŷ llawn amser yn TASTE Academy yn y Rhyl.

Helpodd y rhaglen dros 4,200 o bobl ddi-waith i ddod o hyd i swyddi. Fe gynorthwyodd pobl a oedd yn wynebu rhwystrau cymhleth rhag gweithio gan gynnig cyfleoedd gwaith â thâl, a'u helpu i fagu hyder a sgiliau yn gysylltiedig â gwaith er mwyn cyflawni cyflogaeth gynaliadwy.

www.rcs-wales.co.uk



LLWYBR PERSONOL I WAITH

Cynorthwyodd y prosiect Taith i Waith 4,768 o bobl yng ngogledd Cymru a oedd, trwy ystod o anafteision, yn economaidd anweithredol neu'n ddi-waith.

Trwy'r prosiect, caiff pobl gymorth dwys i wella eu siawns o ddod o hyd i waith a chynyddu eu sgiliau.

Un o'r rhain yw Chris o Gonwy, a gyflwynwyd i'r rhaglen ar ôl iddo ddioddef anaf i'r ymennydd oherwydd salwch. Fe enillodd gymhwyster Datblygiad Personol ac, erbyn hyn, mae'n gweithio'n rhan-amser mewn gwesty lleol.



GWERSYLL TECHNOCAMPS YN YSBRYDOLI'R HEN A'R IFANC

Cymerodd Lucy Joyce ran yng ngwersyll 'Adeiladu eich Rhyngrwyd eich Hunain', a gyflwynwyd gan ganolfan Technocamps Prifysgol Bangor yng ngogledd Cymru. Mae gan Lucy, sy'n ddisgybl Blwyddyn 9 yn Ysgol Friars ym Mangor, lawer o ddiddordebau, ond nid oedd erioed wedi gweithio ar ddylunio gwefannau cyn y gweryll.

Yn syth ar ôl y gweryll, sylwodd rhieni Lucy fod ganddi ddiddordeb mewn dylunio gwefannau a



chodio HTML. Roedd y diddordeb brwd hwn o ddiddordeb i'w thad hefyd, ac erbyn hyn maent yn treulio oriau lawer gyda'i gilydd yn archwilio posibiliadau HTML a thechnolegau gwe eraill.

Mae Technocamps yn darparu gweithdai ymarferol i ysbrydoli, ysgogi ac ennyn diddordeb pobl ifanc mewn meddwl yn gyfrifiadurol.

www.technocamps.com



LLWYDDO'N LLEOL YN CODI I ESGYN I'R AWYR

Cymerodd y ffermwr, Jim Ellis, o Lwyndyrys ger Pwllheli ei awch am ffotograffiaeth i eithafoedd newydd ar ôl cael dyfarnu £1,000 gan Llwyddo'n Lleol. Defnyddiwyd y cyllid i brynu hofrennydd bach i ffilmio digwyddiadau ac adeiladau o'r awyr am ffracsiwn o'r gost o hurio hofrennydd maint go iawn i wneud yr un gwaith.

Sefydlodd Corey Chivers o Gemaes fusnes yn darparu tystysgrifau profion trydanol ar-lein. Galluogodd bwrsariaeth o £1,000 iddo brynu caledwedd gyfrifiadurol a gwe-letya am flwyddyn ar gyfer ei wefan www.testcertonline.co.uk.

Roedd datrys llofruddiaeth arswydus trwy wyddoniaeth fforensig, adeiladu robot, creu tyrbin gwynt a datblygu pont grog 60 troedfedd ymhlith rhai o'r heriau niferus a oedd ar gael i fyfyrwyr mewn ysgolion uwchradd yng Nghonwy a Sir Ddinbych.

Roedd y diwrnodau heriol hyn, trwy Llwyddo'n Lleol, yn amlygu pwysigrwydd pynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg), ac roedd y sesiynau ymarferol yn rhoi blas i fyfyrwyr i fyd gwaith ac amrywiaeth y gyrfaedd sydd ar gael yn lleol.



ETIFEDDIAETH BARHAOL LLUNIO'R DYFODOL



Wrth fod Wylfa yn rhoi'r gorau i gynhyrchu trydan ar ddiwedd 2015 a'r cam cyntaf o ddadgomisiynu Trawsfynydd i fod i gael ei gwblhau yn 2016, crëwyd y prosiect Llunio'r Dyfodol i wella sgiliau a hyblwygrwydd y 1,200 o weithwyr dan sylw.

Ar adeg o brinder byd-eang mewn arbenigedd technegol a pheirianegol allweddol, mae gogledd Cymru mewn sefyllfa berffaith diolch i'w chrynodeiad unigryw o sgiliau y mae galw mawr amdanynt - cynwydd gwerthfawr a all gefnogi cynlluniau twf cynaliadwy'r rhanbarth.

Meithrinwyd etifeddiaeth bwysig yng ngogledd Cymru, diolch i ffocws y prosiect ar ddatblygu sgiliau'r gweithlu. Anogwyd gweithwyr i feddwl yn rhanbarthol a datblygu'r sgiliau y bydd eu hangen arnynt yn y dyfodol i greu gyrfaedd cynaliadwy â sgiliau amrywiol yng ngogledd-orllewin Cymru.

www.mentermon.com



SUT WNAETH LLUNIO'R DYFODOL HELPU ADRIAN
Mae Adrian Williams yn Ddylunydd Mecanyddol sy'n gweithio fel contractwr yn Nhrawsfynydd.

Pan glywodd Adrian am Llunio'r Dyfodol, roedd yn tybio y byddai ar gael i weithwyr Magnox yn unig, ac nid contractwyr. "Roedd yn syndod mawr i mi ei fod ar gael i staff nad oedden nhw'n gweithio i Magnox. Roedd yn syndod mawr, felly gafaelais yn y cyfle â dwy law," dywed Adrian.

Nod Adrian yw sefydlu ymgynghoriaeth gwasanaeth dylunio mecanyddol. I wneud hynny, roedd angen iddo wella ei sylfaen sgiliau bresennol yn gyntaf - a dyna le'r oedd Llunio'r Dyfodol o gymorth.

"Roedd y cyllid a oedd ar gael i mi, hyd yn oed fel contractwr, yn golygu fy mod i'n gallu mynd ar gyrsiau arbenigol na fyddwn i wedi gallu eu hariannu fel arall. Fy uchelgais a'm rhaglen hyfforddi bresennol yw cyflawni statws Arbenigwr.

EFFAITH BUDDSODDIAD AR GAMERA


Mae Tîm Ewropeaidd Arbenigol Gogledd Cymru wedi cyhoeddi cyfres o fideos o Ewrop a Gogledd Cymru hefyd sy'n edrych ar effeithiau Cyllid Strwythurol Ewropeaidd 2007-13 ar fusnesau, cymunedau a phobl Gogledd Cymru.



TAITH I WAITH
www.bit.ly/nwconnect




**Y GRONFA
FUDDSODDI LEOL**
www.bit.ly/lifnwww



LLWYDDO'N LLEOL
www.bit.ly/llwyddolleol



**PROSIECTAU
ADFYWIO
FFISEGOL**
www.bit.ly/PhysReg



**CANOLFAN
RHAGORIAETH ERYRI**
www.bit.ly/fideorhag

Paratowyd y llyfryn hwn ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gan Dîm Ewropeaidd Arbenigol Cymru, sydd wedi'i leoli yn y 6 awdurdod lleol yng ngogledd Cymru. Mae'r Tîm Ewropeaidd Arbenigol yn gweithio tuag at sicrhau bod y rhanbarth yn cael y budd mwyaf o gyllid Ewropeaidd trwy ddarparu ystod o gymorth i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd, a sicrhau y caiff ei weithredu'n effeithiol. Mae Tîmau Ewropeaidd Arbenigol yn bodoli ar draws Cymru ac mewn sectorau gwahanol, o awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

www.tinyurl.com/EuropeNorthWales

